Grŵp Cynefin

Lle i Berthyn • A Place to Belong

Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

CRYNODEB 2025/26

Cartrefi diogel • Cymunedau cynaliadwy • Llywodraethu cryf

5,000+
eiddo

10,000+
o denantiaid

6
Sir wedi'u gwasanaethu

324
aelodau o staff

15,000
o gwsmeriaid wedi cael tai a gwasanaethau cefnogol bob blwyddyn

Trosolwg cryno o'n heffaith amgylcheddol, canlyniadau cymdeithasol a threfniadau llywodraethu.

Pwrpas a dull ESG

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas dai nid-er-elw sy'n gweithredu ar draws chwe sir yng Ngogledd Cymru a gogledd Powys. Rydym yn adeiladu, creu a chynnal cartrefi wrth gefnogi tenantiaid a chwsmeriaid yn eu cymunedau. Mae ein grŵp yn cynnwys is-gwmnïau Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, ac mae ein gwasanaethau'n cynnwys cymorth cymunedol ac atal digartrefedd.

Ein gweledigaeth strategol

Bod yn sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy'n darparu cartrefi diogel a chynaliadwy o ansawdd.

Beth mae ESG yn ei olygu i Grŵp Cynefin

Amgylcheddol

Ein heffaith ar y blaned, gan gynnwys defnyddio ynni, allyriadau carbon, rheoli adnoddau, bioamrywiaeth a gwytnwch hinsawdd.

Cymunedol

Ein perthynas â thenantiaid, cwsmeriaid, staff, cyflenwyr a chymunedau, gan gynnwys diogelwch, fforddiadwyedd, cynhwysiant ac ymgysylltiad.

Llywodraethu

Sut rydym yn cael ein harwain a'n rheoli, gan gynnwys goruchwyliaeth, tryloywder, risg, moeseg, lles y gweithlu a chaffael cyfrifol.

Sut rydyn ni'n adrodd

Mae'r crynodeb hwn wedi'i sylfaenu ar y Safon Adrodd Cynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol, gan gefnogi adroddiadau tryloyw a chymharol ar draws y prif feysydd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Mae ystyriaethau ESG wedi'u hymgorffori mewn trefniadau cynllunio, buddsoddi, risg a sicrwydd tymor hir.

Cipolwg ar 2025/26

- Roedd cymuned yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith, ochr yn ochr â darparu cartrefi a gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel.
- Roedd ein gweithgaredd yn cefnogi tenantiaid a chwsmeriaid tra'n gyfrannu at gymunedau cynaliadwy a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
- Roedd ein blaenoriaethau yn cynnwys gwasanaethau tai sy'n perfformio i lefel uchel, gwerth am arian, penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata, cysylltedd sefydliadol, arweinyddiaeth tenantiaid a bod yn gyflogwr rhagorol.

Cartrefi carbon is, gwydn

Fe wnaethom barhau i wella perfformiad ynni ein cartrefi, cryfhau gwytnwch hinsawdd ac ymgorffori rheoli adnoddau yn gyfrifol wrth datblygu, buddsoddi a chaffael.



100%
o gartrefi newydd gyda sgôr EPC A



76.45%
o gartrefi presennol gyda sgôr EPC A-C



107
o gartrefi wedi'u huwchraddio i EPC C



Rhaglen ôl-osod y dyfodol gwerth
£4.3 miliwn



Disgwylir i **191**
o gartrefi elwa



Targed Carbon Sero-Net
2044

Effeithlonrwydd ynni a Sero Net

- Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd yn gosod targed i leihau allyriadau 4% bob blwyddyn a chyflawni Carbon Sero Net erbyn 2044.
- Roedd gweithgaredd ôl-osod yn cynnwys gwelliannau ffabrig, ailosod ffenestri a drysau, ac uwchraddio systemau gwresogi ac awyru.
- Disgwylir i welliannau system arfaethedig gefnogi adroddiadau llawn Cwmpas 1, 2 a 3 ar nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys allyriadau fesul cartref, erbyn mis Mawrth 2027.

Gwydnwch hinsawdd a bioamrywiaeth

Mae risgiau hinsawdd yn cael eu hasesu gan ddefnyddio gwybodaeth asedau sy'n seiliedig ar GIS, gwybodaeth am gyflwr stoc, mapio llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a rhagolygon hinsawdd y DU. Yna gellir blaenoriaethu cartrefi risg uwch drwy SATC, rhaglenni ôl-osod a buddsoddi. Mae camau lliniaru yn cynnwys gwytnwch llifogydd, draenio cynaliadwy, dewis safleoedd gofalus, awyru, cysgodi a mesurau effeithlonrwydd dŵr.

Mae datblygiadau newydd wedi'u cynllunio i sicrhau cynnydd net bioamrywiaeth trwy fesurau fel plannu blodau gwyllt, coed brodorol a gwrychoedd. Ar gyfer cartrefi presennol, mae rheoli mannau gwyrdd wedi'i ymgorffori mewn trefniadau cydymffurfio SATC ac yn cefnogi bioamrywiaeth, hygyrchedd a theithio llesol.

Adnoddau cyfrifol

Mae cyrchu cyfrifol, rheoli gwastraff adeiladu a dŵr wedi'u hymgorffori o fewn caffael, rheoli contractau, datblygu a'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf. Disgwylir i gontractwyr fframwaith ddangos tystiolaeth o drefniadau priodol, gyda pherfformiad yn cael ei fonitro trwy adolygiad prosiect a chontract.

Cartrefi diogel a chymunedau cryfach

Mae ein heffaith gymdeithasol yn canolbwyntio ar ddiogelwch, fforddiadwyedd, sicrwydd deiliadaeth a chymorth ymarferol sy'n gwella lles ac yn cryfhau tenantiaethau cynaliadwy.



cydymffurfiaeth diogelwch nwy yn

100%



asesiadau risg tân yn

100%



cydymffurfiaeth diogelwch trydanol yn

99.98%



rhagolygon cydymffurfiaeth SATC yn

c.90%



boddhad tenantiaid cyffredinol yn

81%



£1.268 miliwn

o enillion ariannol i denantiaid

Cartrefi diogel a fforddiadwy o ansawdd

- Ar 31 Mawrth 2026, roedd cydymffurfiaeth diogelwch nwy ac asesu risg tân yn 100%, tra bod cydymffurfiaeth profion trydanol yn 99.98%.
- Rhagwelwyd y byddai tua 90% o gartrefi yn bodloni SATC trwy gael canlyniad 'Pasio' neu 'Pasio Tybiedig'. Mae'r materion sydd ar ôl yn cael eu symud ymlaen trwy raglenni buddsoddi a chydymffurfio diffiniedig.
- Mae polisi lleithder a llwydni yn cefnogi adrodd rhagweithiol, archwilio a chamau adferol. Cafodd 86% o eiddo eu cynnwys yn yr arolygon cyflwr stoc, gyda chefnogaeth rhaglen dreigl 20%.
- Mae contractau meddiannaeth sicr yn darparu sefydlogrwydd hirdymor, tra'n cefnogi gan ein protocol Dim troi Allan i Ddigartrefedd. Ni chafodd unrhyw eiddo eu hailfeddiannu yn ystod 2025/26.

Llais a chefnogaeth preswylwyr

- Cynyddodd boddhad tenantiaid cyffredinol o 76% i 81%, yn seiliedig ar 605 o ymatebion arolwg.
- Ymgynghorwyd â 1,100 o denantiaid, cynhaliwyd 37 o gyfarfodydd Fforwm Tenantiaid, a chyfrannodd trigolion at adolygiadau gwasanaethau, polisïau, recriwtio, caffael a dylunio.
- Ni chafodd unrhyw gwynion eu cadarnhau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel achosion o gamweinyddu.
- Cefnogodd ein Warden Ynni 233 o denantiaid, derbyniodd 37 o denantiaid gymorth cynhwysiant digidol, a derbyniodd 23 gyngor cyflogaeth. Darparodd cronfa caledi gwerth £50,000 gymorth ychwanegol.
- Cefnogwyd ac anogwyd cymunedau iachach, mwy cysylltiedig gan fwy na 30 o weithgareddau llesiant, dwy ganolfan gymunedol, storfeydd beic ar chwe stad, a thrac beicio newydd a ddyluniwyd gan bobl ifanc.

Atebol, cynhwysol a chyfrifol

Mae goruchwyliaeth gref, penderfyniadau tryloyw a rheoli risg effeithiol yn cefnogi ein gallu i gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor.



Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn

7.08%



100%

o aelodau'r Bwrdd anweithredol



Cymhareb cyflog Prif Weithredwr i gyflog gweithwyr canolrifol yn

4.4:1



0

canfyddiadau andwyol i'w gorfodi



Targed achredu QED

2026/27

Llywodraethu a sicrwydd

- Mae Grŵp Cynefin yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru ac mae'n dilyn Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru.
- Mae risgiau ESG wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol ac yn cael eu monitro drwy'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, gyda goruchwyliaeth gan y Prif Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd.
- Mae llais tenantiaid yn cael ei gynrychioli drwy'r Pwyllgor Tenantiaid a thrwy adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd. Mae sgiliau, olyniaeth ac amrywiaeth y Bwrdd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
- Ni arweiniodd unrhyw ganfyddiad rheoleiddiol andwyol at orfodi neu gamau cyfatebol yn ystod y cyfnod adrodd.

Ein pobl a'n cadwyn gyflenwi

- Mae cyflogau Grŵp Cynefin ar lefel Cyflog Byw Go Iawn neu'n uwch ac mae'n bwriadu archwilio achrediad ffurfiol ar hynny yn 2026/27.
- Cefnogir lles staff drwy gynllun iechyd corfforaethol, cwnsela, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, gweithio hyblyg a chyfleoedd dysgu a datblygu.
- Mae ein cynllun gweithredu Strategaeth EDI yn cael ei weithredu, ochr yn ochr â'r gwaith tuag at achrediad QED.
- Mae Polisi Gwerth Cymdeithasol a fframwaith caffael cryfach yn cael eu datblygu i ymgorffori canlyniadau cymunedol, cyrchu cyfrifol, costio oes gyfan, lleihau allyriadau carbon a gwell monitro cyflenwyr.

Edrych ymlaen

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27

Parhau i wella effeithlonrwydd ynni; adolygu'r Strategaeth Cynaliadwyedd; cryfhau ein gwaith adrodd ar nwyon tŷ gwydr; gwella ymgysylltiad tenantiaid; ymgorffori gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd mewn caffael; a chynnal buddsoddiad mewn cartrefi diogel, lles staff a chymorth cymunedol.

Gyda'i gilydd, mae'r ymrwymiadau hyn yn cefnogi ein gweledigaeth am gartrefi diogel a chynaliadwy o ansawdd mewn cymunedau sy'n ffynnu.